THEATR CYMRU

# Gwahoddiad i Dendro: Gwasanaethau Archwilio

## 1. Cyflwyniad

Theatr Cymru[1] yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Rydym yn creu man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.  Wedi'i sefydlu yn 2003, mae'r sefydliad yn elusen gofrestredig (Rhif elusen: 1106032) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif cwmni: 04784488).

Mae incwm y cwmni yn deillio o nifer o ffynonellau, gan gynnwys cyllid refeniw aml-flwyddyn blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae prif swyddfa'r cwmni wedi'i leoli yng Nghaerfyrddin ac yn cyflogi 14 o weithwyr parhaol, yn ogystal â gweithwyr theatr ar gynyrchiadau a phrosiectau drwy gydol y flwyddyn.

## 2. Rhan Un – Y Fanyleb

Mae Theatr Cymru yn gwahodd ceisiadau tendr gan gwmnïau cyfrifyddu cymwys i ddarparu gwasanaethau Archwilio Allanol am gyfnod o dair blynedd ariannol, o **1 Ebrill 2025 tan 31 Mawrth 2028**, gyda'r opsiwn o ymestyn y contract am hyd at ddwy flynedd ychwanegol.

Bydd yr archwiliad angen cydymffurfio â safonau archwilio perthnasol, gan gynnwys Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) , a gofynion statudol y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

## 3. Gofynion Gwasanaeth

Dylai'r gwasanaeth gynnwys:

- Archwilio cyfrifon blynyddol Theatr Cymru.
- Paratoi datganiadau cyfrifon blynyddol yn unol â safonau elusennau.
- Mynychu cyfarfod blynyddol o'r Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol i gyflwyno'r canfyddiadau.
- Darparu adroddiadau priodol i'r Pwyllgor, y Bwrdd, a'r awdurdodau statudol.
- Cefnogi swyddogion gyda gofynion adrodd ariannol i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.
- Cymorth gyda hawliadau Rhyddhad Treth Theatr i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC).
- Ymateb i ymholiadau perthnasol o fewn amserlen resymol (fel arfer 5–10 diwrnod gwaith)
- Cydymffurfio â GDPR a darparu mesurau priodol i sicrhau diogelu data.

## 4. Gwybodaeth i Gynnwys yn y Cynnig

Dylai pob tendr gynnwys:

### 4.1 Tystiolaeth Broffesiynol

- Profiad ac arbenigedd y cwmni yn y trydydd sector neu'r sector celfyddydau.
- Manylion y partner(iaid), rheolwr a'r tîm arfaethedig.

[1] Theatr Cymru yw enw masnachu Theatr Genedlaethol Cymru

- Tystiolaeth o gymwysterau proffesiynol (e.e. ICAEW, ACCA).
- Copi o dystiolaeth yswiriant indemniad proffesiynol (lleiafswm: £2 miliwn).
- Manylion adnoddau a chapasiti'r cwmni i ymgymryd â'r gwaith.

### 4.2 Dull a Methodoleg

- Disgrifiad clir o'r dull archwilio, amserlenni ac unrhyw ddyddiau ar y safle.
- Manylion y dull o reoli risg a sicrhau ansawdd.

### 4.3 Ffioedd

- Ffi arfaethedig ar gyfer blwyddyn 2025/26.
- Egwyddorion codi pris ar gyfer blynyddoedd dilynol.
- Dadansoddiad o gostau ychwanegol (teithio, amser ychwanegol ac ati).

### 4.4 Gallu Cymraeg

- Tystiolaeth o allu'r tîm i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cadarnhad y bydd yr holl ddogfennau terfynol ar gael yn Gymraeg.

### 4.5 Gwasanaethau Ychwanegol

- Disgrifiad o unrhyw wasanaethau ategol y gellir eu cynnig.

## 5. Gwerth am Arian

Disgwylir i'r cwmni sicrhau gwerth am arian drwy wneud defnydd effeithiol o amser, arbenigedd ac ansawdd y gwasanaeth. Dylid dangos yn glir sut mae'r ffi'n cyfateb i ansawdd ac ehangder y gwaith.

## 6. Manylion Gweinyddol ac Ymarferol

- Mae Theatr Cymru yn defnyddio **Xero** ar gyfer cyfrifon; **Zahara** ar gyfer creu ac awdurdodi archebion ac anfonebau; a **Sage Online Payroll** ar gyfer cyflogres.
- Prosesir rhwng **50 a 100 o weithwyr proffesiynol** (actorion, staff llwyfan ac ati) drwy'r gyflogres bob blwyddyn, yn dibynnu ar y rhaglen o weithgareddau.
- Mae'r sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer **TAW**.
- Dyddiad cau'r flwyddyn ariannol: **31 Mawrth**.
- Cyfrifon drafft i'w cwblhau erbyn: **31 Gorffennaf**.
- Cyfrifon terfynol erbyn: **30 Medi**.

## 7. Amserlen y Broses Dendro

| Cam | Dyddiad |
|---|---|
| **Dyddiad cau tendrau** | 23 Mawrth 2026 (17:00) |
| **Cyfweliadau (os yn briodol)** | Wythnos yn dechrau 30 Mawrth 2026 |
| **Cychwyn y contract** | Cyn gynted â phosib – ar gyfer archwiliad 2025/26 |
| **Diwedd y contract** | Pan fydd cyfrifon archwiliedig 2027/28 wedi eu cwblhau (gydag opsiwn 2 flynedd ychwanegol) |

## 8. Meini Prawf Asesu

Bydd y panel yn asesu ceisiadau ar sail y dyraniad canlynol:

| **Maes** | |
|---|---|
| **Ansawdd y dull a'r fethodoleg** | 30% |
| **Profiad a gallu'r tîm** | 25% |
| **Gwerth am arian** | 25% |
| **Gallu i weithio drwy'r Gymraeg** | 10% |
| **Adnoddau a chapasiti gweithredu** | 10% |

Bydd cyfweliadau yn adeiladu ar y meini prawf uchod.

# Rhan Dau – Amodau a Thelerau'r Tendr

### 9. Cynnwys y Gwahoddiad i Dendro

Rhaid i bob tendr gydymffurfio'n llawn â'r ddogfen hon a'r unrhyw ychwanegiadau a gyhoeddir gan Theatr Cymru.

### 10. Ymholiadau

Rhaid anfon ymholiadau at: angharad.leefe@theatr.com. Bydd ymatebion yn cael eu rhannu gyda'r holl dendrwyr heb ddatgelu pwy a ofynnodd.

### 11. Tendr Annibynnol

Drwy gyflwyno tendr, mae'r cwmni'n cadarnhau nad yw'r prisiau wedi'u cytuno nac wedi'u rhannu ag unrhyw gystadleuydd arall.

### 12. Diwygiadau

Bydd unrhyw ddiwygiad i'r ddogfen hon yn cael ei anfon o leiaf 7 niwrnod cyn y dyddiad cau.

### 13. Costau Paratoi

Nid yw Theatr Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau paratoi neu gyflwyno.

### 14. Arian

Rhaid nodi pob pris mewn **sterling (GBP)**.

### 15. Cyflwyno'r Tendr

Dylid cyflwyno'r dogfennau yn electronig i angharad.leefe@theatr.com gyda'r teitl e-bost:

"CYFRINACHOL – DOGFENNAU TENDR ARCHWILIO"

Gall methiant i ddilyn y cyfarwyddiadau arwain at ddiddymu'r tendr.

### 16. Ymdrin â'r Tendr

- Nid yw Theatr Cymru yn rhwym i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr.
- Ni fydd unrhyw ddogfennau'n cael eu dychwelyd.
- Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig i bob ymgeisydd.